# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Medi 2024

Amser: 13.33 - 14.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14098

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Alun Davies AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)519 - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 3.1 SL(6)509 - Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)513 - Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

Nid oedd dim eitemau i'w hystyried.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

### 6.2 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 6.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio..

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Adroddiad monitro

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i alwad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban am safbwyntiau ar gyfer ei ymchwiliad i ddeddfwriaeth fframwaith a phwerau Harri'r Wythfed.

## 10 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifoldebau'r Gweinidogion

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifoldebau'r Gweinidogion.